Siarad Gyda Fi
Talk With Me

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llwybr hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan

(wedi'i addasu o lwybr ComIT*/ SEWC**)

---

## Ar gyfer yr holl ymarferwyr gofal plant sy'n gweithio gyda phlant 0 i 4 blwydd 11 mis oed

*Tîm Ymyrraeth Cyfathrebu **Consortiwm De Ddwyrain Cymru



# Cyflwyniad

Mae'r llwybr hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn offeryn y gall ymarferwyr gofal plant yn y blynyddoedd cynnar sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 â 4 blwydd 11 mis oed ei ddefnyddio i nodi eu hanghenion hyfforddi o ran Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Fe'i cynlluniwyd i gyd-fynd â'r Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a'r rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Datblygwyd y llwybr hyfforddi gan y Tîm Ymyrraeth Cyfathrebu (ComIT) o dan gronfa Trawsnewid ADY De-ddwyrain Cymru, ac mae wedi'i addasu i'w ddefnyddio ledled Cymru.

Awdurdodau Lleol a/neu gonsortia addysg sy'n gyfrifol am weithredu'r llwybr, ac mae'n anochel y bydd trefniadau lleol yn amrywio. Er bod rhai o'r cyrsiau sy'n bodloni'r cymwyseddau perthnasol am ddim, mae angen cyllid ar eraill a bydd angen cynllunio ar gyfer hyn a'i gyfathrebu ar lefel awdurdod lleol neu gonsortiwm. Bydd trefniadau Sicrhau Ansawdd yn amrywio'n lleol, a bydd angen eu cyfathrebu ar draws y sector o fewn pob awdurdod lleol neu gonsortiwm.

Mae llawer o gyrsiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu ar gael ledled Cymru, a fydd yn bodloni'r gofynion o fewn pob lefel cymhwysedd, ac ni fydd pob cwrs ar gael ym mhob ardal. Am y rheswm hwn, rhoddir enghreifftiau o fewn y llwybr ond nid yw'r ddogfen hon yn ceisio darparu cyfeiriadur cynhwysfawr o gyrsiau. Mewn rhai achosion, bydd hyfforddiant gloywi yn cael ei argymell ac amserlenni'n cael eu pennu. Mae'n bwysig bod hyfforddiant gloywi yn cael ei gynnwys mewn Cynlluniau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a byddai'n fuddiol cytuno ar amserlenni'n lleol ar gyfer hyn.

## Lefelau sgiliau a'r Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Nid yw'n bosibl cynnwys holl gynnwys y Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yma, ond darperir crynodeb yn y diagram ar dudalen 3. Yn y Fframwaith, diffinnir lefelau sgiliau ar 4 lefel: sylfaenol, cyffredinol, uwch ac arbenigol. Crynhoir y lefelau hyn isod i gyd-fynd â'r 3 disgrifydd trawsnewid ADY 'craidd', 'uwch' ac 'arbenigol'. Mae'r llwybr yn cynnwys y ddwy set o ddisgrifyddion fel y gall ymarferwyr fod yn sicr eu bod yn cael hyfforddiant ar y lefel briodol.

# Craidd

## Sylfaenol:

- Yn addas i'r sawl sy'n dod i gysylltiad â phlant ond nad yw'n gweithio gyda nhw'n rheolaidd, e.e. rheolwyr; arweinwyr strategol; perchnogion; pwyllgorau rheoli
- Ymwybyddiaeth sylfaenol o Leferydd, Iaith a Chyfathrebu ac Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, gan gynnwys datblygiad nodweddiadol a strategaethau ymarferol i gefnogi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

## Cyffredinol:

- Yn addas i bob ymarferydd gofal plant sy'n gweithio gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar yn rheolaidd (gan gynnwys ymarferwyr gofal plant; Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, hyfforddeion/prentisiau)
- Yn trafod y sgiliau a'r wybodaeth sylfaenol y dylai pawb sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant rhwng 0 â 4 blwydd 11 mis eu cael o ran Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ac Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
- Yn cynnwys gwybodaeth am sut i gyfeirio i gymorth ychwanegol

## Mae enghreifftiau o ddeilliannau dysgu yn cynnwys:

- "Yn gallu diffinio'r termau 'lleferydd', 'iaith' a 'chyfathrebu'"

# Uwch

## Uwch:

- I'r sawl sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar mewn swydd benodol yn cynorthwyo Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ac Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Gallai gynnwys yr Ymarferydd Cyfathrebu Arweinol; Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) a'r sawl sy'n cefnogi plant unigol ag anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

## Mae enghreifftiau o ddeilliannau dysgu yn cynnwys:

- 'Â dealltwriaeth drylwyr o normau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu; achosion Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu gan gynnwys ffactorau risg; strategaethau i ddatblygu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a helpu gydag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu'
- 'Yn gallu esbonio'r cysylltiadau rhwng Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a meysydd datblygu eraill'

# Arbenigol

## Arbenigol:

- I'r sawl sydd â swyddogaeth bwysig o ran cefnogi Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Byddai enghreifftiau o ymarferwyr ar y lefel hon yn cynnwys Athrawon y Byddar; Athrawon y Rhai â Nam ar eu Golwg; Arbenigwyr mewn Cyfathrebu amgen/cynyddol ac ati.
- Byddai dysgu ar y lefel hon yn cynnwys: gwybodaeth arbenigol briodol am anghenion penodol y plant yr ydych yn gweithio gyda nhw, e.e. plant byddar/defnyddwyr dulliau cyfathrebu ategol ac amgen
- **Mae enghreifftiau o ddeilliannau dysgu yn cynnwys:**
- 'Yn gallu adnabod plant sydd mewn perygl o fod ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu hirdymor'
- 'Yn gallu cynorthwyo ymarferwyr eraill sy'n gweithio gyda phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu hirdymor'

# Llwybr hyfforddi ymarferwyr Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan: 0 i 4 blwydd 11 mis

| Lefel o ddatblygiad sgiliau (nodyn1) | Pwy? | Cymwyseddau (nodyn2) | Hyfforddiant i fodloni'r cymwyseddau | Effeithiolrwydd (nodyn3) |
|---|---|---|---|---|
| **Craidd** (gan gynnwys y lefelau 'sylfaenol' a 'cyffredinol' o'r Fframwaith) | **Sylfaenol:**(nodyn4) e.e. rheolwyr, arweinwyr strategol, Swyddogion Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar(nodyn5) **Cyffredinol**(nodyn6)**:** pob ymarferydd gofal plant sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 â 4 blwydd 11 mis | **Sylfaenol:** ymwybyddiaeth o Leferydd, Iaith a Chyfathrebu ac Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu **Cyffredinol:** dealltwriaeth sylfaenol o Leferydd, Iaith a Chyfathrebu ac Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu | • Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3(nodyn7)<br>• Cwrs byr yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu(nodyn8)<br>• Hyfforddiant lefel ragarweiniol(nodyn9)<br>• Elklan/Hanen craidd(nodyn10)<br>• Hyfforddiant pwrpasol(nodyn11) | • Offer hunanarfarnu(nodyn12)<br>• Monitro data cyn ac ar ôl y cwrs(nodyn13)<br>• Sicrwydd Ansawdd(nodyn14) |
| **Uwch** (lefel 'uwch' ar y Fframwaith) | • CADY(nodyn15)<br>• Ymarferydd Cyfathrebu Arweiniol:(nodyn16) arfer gorau byddai i o leiaf un ymarferydd o bob lleoliad gael ei hyfforddi i lefel uwch | • Gwybodaeth ymarferol o Leferydd, Iaith a Chyfathrebu nodweddiadol ac arwyddion o Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu<br>• Dealltwriaeth o sut i gynorthwyo plant nad oes ganddynt ac sydd ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn briodol | • Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 4(nodyn7)<br>• Elklan/Hanen craidd(nodyn10)<br>• CFS Elklan(nodyn17)<br>• Hyfforddiant pwrpasol(nodyn11) | • Fel y nodir uchod<br>• Gweler What Works(nodyn18) Sefydliad Gwaddol Addysgol(nodyn19) am dystiolaeth o effeithiolrwydd |
| **Arbenigol** | Ymarferwyr sy'n arbenigo mewn Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu | Bydd angen gwybodaeth fanwl o anghenion y plant y maen nhw'n gweithio gyda nhw ar y sawl sydd â rhan arwyddocaol mewn cefnogi Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu | • e.e. – Elklan arbenigol(nodyn20)<br>• Hyfforddiant pwrpasol(nodyn11) | • Fel y nodir uchod<br>• Ystyried monitro effeithiolrwydd pecynnau pwrpasol |

Llwybr hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan 0 i 4 blwydd 11 mis (wedi'i addasu o lwybr ComIT)



Gweler tudalennau 5 a 6 am nodiadau ar ganllawiau ar sut i ddefnyddio'r llwybr ac esboniadau o gynnwys.

# Nodiadau

1. Daw'r disgrifyddion lefel 'craidd, uwch, arbenigol' o'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (Llywodraeth Cymru, 2018), ac mae'r grwpiau staff cyfatebol ar bob lefel fel y disgrifir yn y rhaglen. Mae'r lefel 'craidd' yn cynnwys lefelau 'sylfaen' a 'chyffredinol' o'r Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu; ac mae'r lefel 'uwch' yn cyfateb i lefel 'uwch' y Fframwaith. Mae lefel arbenigol yr un fath ar gyfer disgrifyddion y Fframwaith ac Anghenion Dysgu Ychwanegol
2. Crynhoir y cymwyseddau sy'n ofynnol ar bob lefel yn y golofn hon, ac fe'u hesbonnir yn fanylach yn y tabl ar dudalen 3
3. Mae'n hanfodol bod y staff yn ffyddiog y bydd unrhyw hyfforddiant y maent yn ymgymryd ag ef yn effeithiol o ran newid arfer. Bwriad y golofn hon yn y llwybr yw cyfeirio staff i dystiolaeth sy'n bodoli eisoes yn ogystal â'u helpu i nodi ffyrdd o fonitro eu heffeithiolrwydd eu hunain yn y lleoliad
4. Cyfeiria lefel 'sylfaen' at lefel y cymhwysedd a ddisgrifir yn y Fframwaith. Bydd hyn yn cynnwys yr holl ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant
5. Mae Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar yn swydd a ddisgrifir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (gweler Côd ADY Cymru, pennod 10 tudalen 87). Disgrifir yr arbenigedd sy'n ofynnol ar gyfer swydd Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar yn y Côd yn 10.4 ar dudalen 88; ac mae angen o leiaf y lefel 'sylfaen' ar y llwybr hwn
6. Cyfeiria lefel 'cyffredinol' at lefel y cymhwysedd a ddisgrifir yn y Fframwaith. Bydd hyn yn cynnwys rhan fwyaf o'r gweithlu, gyda phawb sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant fel eu prif swydd ar y lefel hon o ddatblygu sgiliau. Gall hyn gynnwys e.e. Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn ogystal ag aelodau o'r gweithlu gofal plant
7. Mae'r gyfres newydd o gymwysterau Gofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygu yn cynnwys Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar lefelau 2, 3 a 4. Mae'r cynnwys ar lefelau 3 a 4 yn bodloni'r cymwyseddau ar lefel gyffredinol ac uwch yn y drefn honno. D.S.: nid oedd unrhyw gynnwys yn y cymwysterau gofal plant lefel mynediad blaenorol yn bodloni cymwyseddau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
8. Mae cwrs byr yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu yn gyflwyniad ar-lein i Leferydd, Iaith a Chyfathrebu. Mae'r cwrs am ddim, ac mae'n cymryd tua hanner diwrnod i'w gwblhau
9. Mae cyrsiau 'lefel ragarweiniol' yn cyfeirio at gymwyseddau lefel mynediad o ran Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ac Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
10. Mae Elklan a Hanen yn ddarparwyr hyfforddiant sy'n arbenigo mewn Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Maen nhw'n hyfforddi hyfforddwyr i gyflwyno cyrsiau'n lleol yn ôl yr angen. Mae enghreifftiau o gyrsiau craidd Elklan yn cynnwys 'Speech and Language Support for 0-3s'; ac mae enghreifftiau o gyrsiau Hanen yn cynnwys 'Learning Language and Loving It'

## Nodiadau (parhad):

11. Bydd hyfforddiant pwrpasol yn cael ei nodi gan arbenigwr (e.e. Therapydd Lleferydd ac Iaith) ac mae'n benodol i anghenion y lleoliad neu'r unigolyn, e.e. Arwyddiaith, Cyfathrebu Ategol ac Amgen. Er bod y rhain yn bynciau arbenigol, gallan nhw fod yn berthnasol ac yn angenrheidiol i staff ar bob lefel o'r llwybr yn dibynnu ar y pwnc ac anghenion y plentyn neu'r plant

12. Mae amrywiaeth o ddulliau hunanwerthuso ar gael i ymarferwyr a lleoliadau. Caiff y rhain eu cynnwys neu eu trafod yn y cyrsiau hyfforddi o fewn y llwybr, ac maen nhw'n cynnwys Pecyn Cymorth y Sefydliad Gwaddol Addysgol; rhestrau gwirio yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu ac Elklan (dim ond i ymarferwyr sydd wedi dilyn cyrsiau Elklan y mae rhestrau gwirio Elklan ar gael). Mae rhestrau gwirio yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu am ddim a darperir dolenni yn fan hyn er gwybodaeth:
    Cyfeirnod cyflym
    Mwy manwl
    Cyfleuster arsylwi ar ystafelloedd dosbarth sy'n cefnogi cyfathrebu

13. Mae cyrsiau Elklan a chwrs byr  yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu yn cynnwys holiaduron cyn ac ôl hyfforddiant sy'n ystyried e.e. hyder a gwybodaeth ymarferwyr o ran Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Bydd llenwi'r rhain yn helpu darparwyr hyfforddiant a staff i fonitro effeithiolrwydd yr hyfforddiant

14. Bydd angen ystyried a chytuno'n lleol ar Sicrwydd Ansawdd hyfforddiant Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

15. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn swydd a ddisgrifir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (gweler Côd ADY Cymru, pennod 8 t.75). Mae'r Rhaglen Trawsnewid ADY (LlC, 2018), yn nodi y dylai'r Cydlynydd ADY gael ei hyfforddi i'r lefel 'uwch' o ddatblygu sgiliau (t4, adran 2 'datblygu'r gweithlu')

16. Ymarferydd Cyfathrebu Arweiniol yw'r term y mae Elklan yn ei ddefnyddio ar gyfer ymarferydd mewn lleoliad sydd â'r swyddogaeth o gefnogi'r tîm i ddarparu cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu i bob plentyn yn eu lleoliad. Gellir defnyddio gwahanol deitlau ar gyfer yr un swydd yn lleol. Nid yw hon yn rôl statudol ond gall dynodi Ymarferydd Cyfathrebu Arweiniol helpu i sicrhau arferion gorau cyson mewn Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

17. Mae rhaglen 'Communication Friendly Settings' Elklan yn rhaglen achrededig sy'n cynnwys hyfforddiant a sicrwydd ansawdd mewn lleoliadau, gan gynnwys penodi Ymarferydd Cyfathrebu Arweiniol. Gweler gwefan Elklan am fanylion

18. Mae What Works yn gronfa ddata o hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

19. Pecyn Cymorth y Sefydliad Gwaddol Addysgol

20. Mae enghreifftiau o gyrsiau Elklan arbenigol yn cynnwys: Supporting pupils with hearing difficulties, unclear speech, verbal pupils with ASD

# Cyfeiriadau


- Yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu (2017) Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
- Llywodraeth Cymru (2018) Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru)
- Llywodraeth Cymru (2021) Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru

# Atodiad 1: Cofnod hyfforddiant ar gyfer lleoliadau

Cynlluniwyd y templed hwn i helpu arweinwyr i gadw cofnod o ofynion hyfforddi a statws ymarferwyr. Fe'i darperir ar ffurf taenlen Excel ynghyd â'r fersiwn electronig o'r llwybr, ac mae modd ei olygu'n llawn i alluogi ymarferwyr i gynnwys hyfforddiant lleol pwrpasol ayyb.
Mae'r fersiwn Excel ar gael i chi ei lawrlwytho yn https://www.exchangewales.org/cy/siarad-gyda-fi-lleferydd-iaith-a-chyfathrebu/

| | | **Enw'r cwrs:** | | | **Enw'r cwrs:** | | | **Enw'r cwrs:** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r ymarferydd | Lefel Sgil (gweler cymwyseddau ar y llwybr) | Gofynnol? Y/N | Wedi'i gwblhau? D/N/Amh. | Dyddiad cwblhau | Gofynnol? Y/N | Wedi'i gwblhau? D/N/Amh | Dyddiad cwblhau | Gofynnol? Y/N | Wedi'i gwblhau? D/N/Amh | Dyddiad cwblhau |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |


© Hawlfraint y Goron 2021
WG42634 ISBN digidol 978-1-80195-412-9 ISBN argraffu 978-1-80195-411-2